# Adroddiad ar gyfer

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd:

## Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru




Chwefror 2019

# Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol ........ 1
2. Cyflwyniad ........ 3
3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol ........ 4
4. Mesurau Diogelu Busnesau ........ 6
5. Adolygiad o Bolisi a Gweithdrefnau ar gyfer Mesurau Diogelu'r CSHB ar gyfer Busnesau Bwyd ........ 9
6. Ymchwil ........ 10
7. Cysondeb ........ 11
8. Hysbysiadau Cosb Benodedig ........ 12
9. Camau Gweithredu mewn Ymateb i Argymhellion ........ 13
10. Casgliadau ........ 14
11. Argymhellion ........ 15

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i adolygu gweithrediad y system apelio yn flynyddol. Mae'n rhaid llunio adroddiad sy'n ymwneud â'r adolygiadau hyn a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac anfon copi at Weinidogion Cymru.

1.2. Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn dilyn adolygiad o wybodaeth am apeliadau sgôr hylendid bwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2018.

1.3. Canfu'r adolygiad:

- Bod 94 o fusnesau yng Nghymru wedi apelio;
- Bod 17 o apeliadau (18%) wedi arwain at newidiadau i sgoriau hylendid bwyd;
- Bod 87 o apeliadau (93%) wedi'u pennu o fewn y cyfnod gofynnol, sef 21 diwrnod;
- Bod 94, felly pob apêl (100%), wedi'u pennu gan swyddog nad oedd wedi asesu'r sgôr a oedd yn cael ei hapelio.

1.4. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r darpariaethau apelio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) (y Cynllun) yn unol â'u rhwymedigaethau statudol. Er hynny, mewn perthynas â saith apêl, nid oedd awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod i'r busnes bwyd o'u penderfyniad o fewn 21 diwrnod. Mae'r ASB wedi ymchwilio i'r achosion hyn a phennu'r rhesymau dros yr oedi.

1.5. Canfu adolygiad annibynnol o Fesurau Diogelu Busnesau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB), a gomisiynwyd gan yr ASB yn 2018, nad oedd unrhyw fethiannau systematig o ran gweithredu mesurau diogelu'r CSHB, ac yn gyffredinol, roeddent yn cael eu darparu'n effeithiol ac o fewn y terfynau amser gofynnol. Mae'r adolygiad yn cydnabod manteision casglu data i'w gynnwys yn yr adolygiad blynyddol o apeliadau fel rhan o'r trefniadau statudol yng Nghymru. Nid oedd unrhyw argymhellion i newid mesurau diogelu busnes yng Nghymru.

1.6. Mae ymchwil[1] yn dangos bod cyfran uchel o fusnesau yng Nghymru yn ymwybodol o'r mesurau diogelu, gyda 70% yn cofio cael gwybodaeth am yr hawl i ymateb, 81% am wneid cais am ailsgorio, a 88% yn cofio cael gwybodaeth am sut i apelio sgôr. Mae nifer y busnesau sy'n defnyddio'r mesurau diogelu yn parhau i fod yn isel.

[1]Arddangos sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – BMG Research – i'w gyhoeddi'n fuan

1.7. Mae awdurdodau lleol yn parhau i gydnabod manteision cymhwyso'r Cynllun yn gyson, gan flaenoriaethu bod swyddogion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymarferion cysondeb. Yn 2018, cymerodd 164 o swyddogion ran mewn digwyddiadau hyfforddi cysondeb ledled Cymru, a ariannwyd gan yr ASB. Ymhellach, fe wnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn yr Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol y CSHB a oedd yn canolbwyntio sefyllfa yn ymwneud ag apêl.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Ym mis Tachwedd 2013, sefydlodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”) Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd ("y Cynllun") statudol yng Nghymru[2]. Roedd hyn yn seiliedig ar gynllun anstatudol presennol a oedd yn cael ei weithredu gan awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y Cynllun ac i'r busnesau o fewn yr awdurdod hwnnw arddangos eu sgôr hylendid bwyd. Er mwyn gweithredu'r Ddeddf yn llawn, fe wnaeth Gweinidogion Cymru greu Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013”)[3]. Yn ogystal, mae'n ofynnol i fusnesau sy'n cyflenwi bwyd tecawê ddarparu gwybodaeth ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd penodol sy’n cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau[4].

2.2. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar yr ASB i adolygu gweithrediad y system apeliadau bob blwyddyn. Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach ym mis Chwefror 2015[5] a'u diweddaru ym mis Awst 2015[6]; Chwefror 2016[7] a Chwefror 2017[8]. Roedd adolygiad 2018 wedi'i gynnwys yn yr Adolygiad o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru[9] a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018. Gosodwyd yr adroddiadau adolygu hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac anfonwyd copi at Weinidogion Cymru.

2.3. Yr adroddiad hwn yw'r pumed adolygiad blynyddol o weithrediad y system apelio ac fe'i baratowyd i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o 28 Tachwedd 2017 i 27 Tachwedd 2018 ac yn cynnwys gwybodaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn diweddaru ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny yn adroddiad 2018 sy'n berthnasol i weithredu'r system apeliadau.

---

[2] Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
[3] Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
[4] Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016
[5] Adolygu’r broses o Weithredu’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru, Chwefror 2015
[6] Adroddiad Diweddaru yr Adolygiad o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Awst 2015
[7] Adolygiad o Weithrediad System Apelio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, Chwefror 2016
[8] Adolygiad o Weithrediad System Apelio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, Chwefror 2017
[9] Adolygu’r broses o weithredu’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru, Chwefror 2018

# 3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol

3.1. Pwrpas y Cynllun yw galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â lle maent yn bwyta ac yn prynu bwyd, a thrwy'r dewisiadau hynny, annog busnesau i wella eu safonau hylendid. Mae'r Cynllun yn gwneud hyn trwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr (ar ffurf sgôr hylendid bwyd) ynghylch safonau hylendid a nodwyd mewn busnesau bwyd adeg arolygu.

3.2. Yng Nghymru, mae'r Cynllun yn berthnasol i sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ar yr amod nad ydynt yn cael eu heithrio gan Reoliadau 2013[10], a busnesau bwyd sy'n ymwneud â masnach busnes i fusnes, er enghraifft gweithgynhyrchwyr bwyd neu'r rheiny sy'n pecynnu bwyd heb unrhyw safle manwerthu.

3.3. Pennir sgoriau hylendid bwyd gan awdurdodau lleol yn dilyn arolygiadau i wirio cydymffurfiaeth busnes bwyd â chyfreithiau hylendid bwyd. Cynhelir yr arolygiadau hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd[11]. Mae'r sgôr yn cael ei chyfrifo gan swyddogion yn dilyn arolygiad, gan ddefnyddio tair elfen benodol:

- Lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd – pa mor hylan y mae bwyd yn cael ei drin – sut y caiff ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio;
- Lefel gydymffurfio â gofynion strwythurol – cyflwr strwythur yr adeilad, glendid, cynllun, goleuadau, system awyru a chyfleusterau eraill;
- Hyder mewn gweithdrefnau rheoli – sut mae'r busnes yn rheoli ac yn cofnodi beth y mae'n ei wneud i sicrhau bod bwyd yn ddiogel.

3.4. Mae busnesau bwyd yn cael sgôr o 0 (angen gwella ar frys) i 5 (da iawn), sy'n adlewyrchu'r safonau a nodwyd adeg yr arolygiad (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Delweddau o Sticeri Sgorio Hylendid Bwyd**





[10] Mae enghreifftiau o sefydliadau wedi'u heithrio yn cynnwys canolfannau ymwelwyr sy'n gwerthu tuniau o fisgedi neu nwyddau wedi'u lapio, canolfannau hamdden gyda pheiriannau gwerthu diodydd a siopau papurau newyddion sy'n gwerthu danteithion wedi'u pecynnu ymlaen llaw
[11] Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) Awst 2018

3.5. Caiff sgôr hylendid bwyd pob busnes ei chyhoeddi ar wefan yr ASB[12] ochr yn ochr â chrynodeb naratif. Mae'r crynodeb yn rhoi dadansoddiad o'r tair elfen sy'n sail i'r sgôr ac sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr am y rhesymau dros y sgôr. Mae'r wefan hefyd yn cynghori defnyddwyr bod modd cael copi o lythyr adroddiad yr arolygiad gan yr awdurdod lleol a gynhaliodd yr arolygiad.

3.6. Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun yn 2013, mae nifer y busnesau yng Nghymru:

- sy'n cael sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan) neu uwch wedi cynyddu'n raddol o 87.1% yn 2013 i 95.6% yn 2018;
- sy'n cael y sgôr uchaf o '5' (Da Iawn) hefyd wedi cynyddu o 10,022 (45%) yn 2013 i 19,465 (67%) yn 2018;
- sy'n cael sgôr o '0' (Angen Gwella ar Frys) wedi gostwng o 172 (0.9%) yn 2013 i 47 (0.2%) yn 2018.

3.7. Mae hyn yn dangos bod y Cynllun yn gweithio o ran gwella safonau hylendid bwyd.




[12] www.food.gov.uk/sgoriau

## 4. Mesurau Diogelu Busnesau

4.1. Mae'r Ddeddf yn darparu nifer o fesurau diogelu i sicrhau bod y Cynllun yn deg i fusnesau. Maent fel a ganlyn:

- yr hawl i apelio eu sgôr hylendid bwyd os yw'r busnes yn ystyried bod y sgôr yn anghyfiawn;
- yr hawl i ymateb, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r sgôr hylendid bwyd ar wefan yr ASB;
- y gallu i ofyn am arolygiad ailsgorio os gwnaed gwelliannau i'r safonau hylendid.

*Gweithredu'r System Apelio*

4.2. Gellir gwneud apeliadau i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr, ar y sail ganlynol:

- nad yw'r sgôr yn adlewyrchu safonau hylendid bwyd y sefydliad yn briodol adeg yr arolygiad;
- na chafodd y meini prawf sgorio eu rhoi ar waith yn gywir wrth bennu'r sgôr hylendid bwyd.

Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y daeth y sgôr hylendid bwyd i law, ac mae'n rhaid ei chyflwyno'n ysgrifenedig ar y ffurflen benodol.

4.3. O dan y Ddeddf, yr awdurdod lleol a roddodd y sgôr hylendid bwyd sy'n gyfrifol am benderfynu ar apeliadau. Rhaid i'r awdurdod lleol bennu'r apêl a rhoi gwybod i'r gweithredwr busnes bwyd a'r ASB o'i benderfyniad o fewn 21 diwrnod. Dylai swyddog awdurdodedig nad oedd yn rhan o asesu'r sgôr sy'n cael ei hapelio, ystyried yr apêl.


4.4. Os nad yw'r gweithredwr busnes bwyd yn fodlon â chanlyniad yr apêl a/neu maen nhw'n ystyried nad oedd gwasanaeth yr awdurdod lleol wedi'i ddarparu'n briodol, gallant ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol. Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn parhau i fod yn anfodlon, gellir cyfeirio'r mater at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn y pen draw, gall y gweithredwr busnes bwyd wneud cais am ganiatâd i ddod ag achosion adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod lleol.

4.5. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod wedi cael chwe cwyn ffurfiol yn ymwneud â'r Cynllun rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2018. Roedd y rhain yn deillio o dri awdurdod lleol.

4.6. Yn ôl gwybodaeth apeliadau sgorio hylendid bwyd ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2017 hyd at 27 Tachwedd 2018:

- Gwnaed 94 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru ar draws 19 o'r 22 awdurdod lleol;
- Penderfynwyd ar 87 o apeliadau (93%) o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod, gyda'r gweddill yn cael eu pennu o fewn 16 diwrnod i'r amserlen statudol;
- Bod 94, felly pob apêl (100%), wedi'u pennu gan swyddog nad oedd wedi asesu'r sgôr a oedd yn cael ei hapelio.

4.7. Mae'r 94 apêl a wnaed yn cynrychioli 1.0% o'r 9,445 o sefydliadau sydd wedi sgorio '0' (angen gwella ar frys) i '4' (da) yn ystod y cyfnod a 0.3% o'r holl fusnesau bwyd sydd wedi cael sgôr yng Nghymru. Ar ôl penderfynu ar y 94 apêl a godwyd, roedd 77 (81.9%) o'r sgoriau wedi aros yr un fath a 17 (18%) yn arwain at newid sgoriau. O ran y 17 sgôr a gafodd eu hadolygu (ar draws 9 awdurdod lleol), roedd 15 yn arwain at sgôr uwch a dau wedi arwain at sgôr is. Mae Ffigur 3 yn dangos dosbarthiad y newidiadau i sgoriau cyn ac ar ôl penderfynu ar apeliadau.




4.8. Gwnaed mwy na hanner (48) o'r apeliadau (51%) gan fusnesau bwyd a gafodd sgôr is na '3' (Boddhaol ar y Cyfan). Roedd y rhif hwn yn cynnwys:

- tri gyda sgôr o '0' (Angen Gwella ar Frys)
- 28 gyda sgôr o '1' (Angen Gwella yn Sylweddol)
- 17 gyda sgôr o '2' (Angen Gwella)

Mae'r 46 o apeliadau sy'n weddill wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

- Gwnaed 26 apêl gan fusnesau gyda sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan)
- Gwnaed 20 apêl gan fusnesau gyda sgôr o '4' (Da)

*Hawl i ymateb*

4.9. Mae gan weithredwyr busnesau bwyd yr hawl i ymateb, i'w gyhoeddi ar wefan yr ASB ochr yn ochr â'r sgôr y mae'r sylwadau'n berthnasol iddo. Gellir cyflwyno sylwadau hawl i ymateb ar unrhyw adeg tra bod y sgôr yn ddilys, p'un a oes apêl wedi'i gwneud ai peidio. Pwrpas yr hawl i ymateb yw galluogi'r busnes i egluro'r camau a gymerwyd gan y gweithredwr busnes bwyd yn dilyn yr arolygiad pan dyfarnwyd y sgôr neu i roi gwybodaeth am amgylchiadau adeg yr arolygiad.

4.10. Cafodd 26 o sylwadau hawl i ymateb gan weithredwyr busnesau bwyd eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2017 hyd 27 Tachwedd 2018. Mae'r rhain yn cynrychioli 0.1% o holl fusnesau bwyd Cymru.

*Ceisiadau am arolygiad ailsgorio*

4.11. O dan y Cynllun, gall gweithredwyr busnesau bwyd ofyn am arolygiad ailsgorio. Mae'r mesur diogelu hwn yn rhoi cyfle i fusnesau wella eu sgoriau cyn eu harolygiad nesaf, lle mae'r gwelliannau gofynnol wedi'u cynnal. Codir tâl am gais ailsgorio ac mae angen bodloni rhai amodau er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyfrifo a chytuno ar gost resymol ar gyfer arolygiad ailsgorio, sef £160 ar hyn o bryd. Mae’r ffi hon yn gyson ar draw pob awdurdod lleol yn Nghymru.

4.12. Yn y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2018, cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru 833 o geisiadau am arolygiadau ailsgorio. Mae'r rhain yn cynrychioli 8.8% o holl fusnesau bwyd sydd wedi cael sgôr o 0 (Angen Gwella ar Frys) i 4 (da). Nid yw’r ffigur hwn yn ystyried busnesau sydd wedi cael sgôr o 5 (Da Iawn) gan nad oes disgwyl iddynt ofyn am ail-sgôr.

## 5. Adolygiad o Bolisi a Gweithdrefnau ar gyfer Mesurau Diogelu’r CSHB ar gyfer Busnesau Bwyd

5.1. Comisiynodd yr ASB adolygiad annibynnol o ddulliau diogelu’r CSHB[13] ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mis Hydref 2018 i asesu eu heffeithiolrwydd ar gyfer awdurdodau lleol a busnesau.

5.2. Archwiliodd yr adolygiad ddeddfwriaeth perthnasol, polisïau cyhoeddedig, gweithdrefnau a chanllawiau, gan gynnwys y canllawiau statudol ar gyfer Cymru a gofynnodd am farn gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a busnesau trwy ymgynghori ysgrifenedig a thrafodaethau grŵp.

5.3. Canfu'r adolygiad nad oedd unrhyw fethiannau systematig o ran prosesau awdurdodau lleol a bod mesurau diogelu’r CSHB yn cael eu darparu'n bennaf yn effeithiol ac o fewn y terfynau amser gofynnol yn gyffredinol.

5.4. Roedd pryderon y diwydiant a oedd wedi’u nodi yn yr adolygiad yn canolbwyntio ar y system apeliadau ac ar oruchwyliaeth yr ASB o waith cyflenwi awdurdodau lleol. Mae'r adolygiad yn cydnabod manteision casglu data i'w gynnwys yn yr adolygiad blynyddol o apeliadau fel rhan o'r trefniadau statudol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae'n cydnabod bod hyn yn darparu gwybodaeth feintiol gadarn i ddangos a yw awdurdodau lleol yn cymhwyso'r mesurau diogelu yn deg ac yn effeithiol. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion i gyflwyno proses debyg yn Lloegr.

5.5. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y mesurau diogelu cyfredol yn gweithio'n effeithiol ac nid oeddent yn gwneud unrhyw argymhellion penodol ar gyfer newid yng Nghymru.

[13]Adolygiad o Bolisi a Gweithdrefnau ar gyfer Mesurau Diogelu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) ar gyfer Busnesau Bwyd – i'w gyhoeddi'n fuan


# 6. Ymchwil

6.1. Mae’r ASB yn cynnal ymchwil blynyddol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd yr arolwg mwyaf diweddar rhwng Medi a Chwefror 2018 yn cynnwys arolwg dros y ffôn o fannau sy'n gwerthu bwyd i ganfod, ymysg pethau eraill, ymwybyddiaeth o'r mesurau diogelu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun. Dewiswyd y sampl ar gyfer yr arolwg ffôn o gronfa ddata'r CSHB ac roedd yn cynnwys 513 o fusnesau o Gymru.

6.2. Gofynnwyd i fusnesau a oeddent yn cofio cael llythyr ar ôl eu harolygiad diwethaf, yn nodi eu sgôr hylendid bwyd a chynghori am y mesurau diogelu sydd ar gael iddynt.

6.3. Yng Nghymru, roedd nifer y busnesau a oedd yn cofio cael llythyr arolygu yn uchel (93%), o'i gymharu â Lloegr (80%) a Gogledd Iwerddon (91%). Hefyd, roedd nifer uchel o fusnesau a oedd â sgôr o 4 neu is yn cofio cynnwys y llythyr arolygu:

- Mae 91% yn cofio cael llythyr a oedd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i gael y sgôr uchaf
- Mae 88% yn cofio cael llythyr yn dweud bodd modd apelio'r sgôr
- Mae 81% yn cofio cael llythyr yn dweud eu bod yn gallu gofyn am arolygiad ail-sgorio
- Mae 70% yn cofio cael llythyr yn esbonio eu hawl i ymateb




6.4. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos lefel isel o ran busnesau yn defnyddio'r dewisiadau diogelu heb unrhyw arwydd clir o'r rhesymau pam. Mae data'r ASB a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn cefnogi hyn, gyda 0.1% o fusnesau Cymru yn apelio eu sgôr, 8.8% yn gofyn am arolygiad ail-sgorio a dim ond 0.1% yn arfer eu hawl i ymateb.

## 7. Cysondeb

7.1. Mae'n hanfodol bod swyddogion o fewn ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn cymhwyso'r Cynllun yn gyson er mwyn sicrhau tegwch a chyfiawnder i fusnesau bwyd. Mae hyn yn bwysig i gynnal hygrededd y Cynllun.

7.2. Sefydlwyd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru, gyda chynrychiolaeth o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r ASB, i ddarparu cyfeiriad strategol a fforwm i drafod gweithredu a sicrhau cysondeb. Fe wnaeth y grŵp gwrdd pedair gwaith yn ystod y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2018.

7.3. Datblygwyd canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol[14] gan yr ASB, Llywodraeth Cymru a Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru yn 2014 i gefnogi swyddogion wrth weithredu'r ddeddfwriaeth yn gyson. Adolygwyd a diweddarwyd y canllawiau yn 2017.

7.4. Mae'r ASB wedi trefnu pedwerydd Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd yr ymarfer yn cynnwys sefyllfa ar-lein, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2018 am chwe wythnos. Fe wnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn yr ymarfer cysondeb cenedlaethol. Sefyllfa’r ymarfer oedd gweithredwr busnes bwyd caffi a oedd wedi apelio ei sgôr. Rydym ni wrthi'n dadansoddi canlyniad yr ymarfer a byddwn ni'n adrodd yn ôl fis Ebrill 2019.

7.5. Ym Mis Medi 2018, cynhaliwyd digwyddiad cysondeb Cymru gyfan ym Mhowys, a phedwar digwyddiad rhanbarthol, dau yng Nglynebwy, un yn Wrecsam ac un yn Llanelli. Cafodd y digwyddiadau eu hariannu gan yr ASB, a'i gyflwyno gan Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys. Fe aeth 164 swyddog o ar draws Cymru i'r digwyddiadau ac ystyried nifer o sefyllfaoedd. Roedd canlyniadau'r digwyddiadau yn dangos lefelau uchel o gysondeb ymysg swyddogion. Lle'r oedd gwahaniaethau mewn sgoriau, cafodd swyddogion gyfle i drafod a myfyrio ar eu penderfyniadau.

[14] Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hybu Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 – Canllawiau i awdurdodau bwyd

# 8. Hysbysiadau Cosb Benodedig

8.1. Mae gan swyddogion awdurdodedig yr hawl i gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig (yr hysbysiad/au) mewn perthynas â throseddau penodol yn y Ddeddf a'r Rheoliadau. Mae'r hysbysiad yn cynnig cyfle i fusnesau bwyd osgoi cael eu herlyn am drosedd trwy dalu hysbysiad cosb benodedig. I ddechrau, roedd yn rhaid dychwelyd yr arian a gafwyd drwy'r hysbysiadau hyn ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ddiwygiad sy'n galluogi awdurdodau lleol i gadw'r arian hwn i gefnogi gweithgareddau mewn perthynas â gorfodi'r Ddeddf.

8.2. Argymhellodd yr ASB, yn ei hadolygiad 2018 o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol a Gweithredu'r System Apeliadau yng Nghymru, y dylai werthuso effaith y diwygiad ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn wedi iddo ddod i law.

8.3. Mae'r ASB, ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi nodi'r data sydd ei angen i werthuso effaith awdurdodau lleol yn gallu cadw'r arian hwn ac mae wedi datblygu proses ar gyfer casglu'r data. Cytunwyd nad oedd cael data'r gorffennol gan awdurdodau lleol yn ymarferol nac yn gost-effeithiol. O ganlyniad, cafodd data o fis Tachwedd 2018 ei gasglu, er mwyn gallu asesu'n well a chreu adroddiad yn flynyddol yn y dyfodol.

8.4. Mae'r ASB wedi parhau i gasglu data gwaelodlin yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn. Mae awdurdodau lleol wedi cynghori y cyhoeddwyd 162 hysbysiad cosb benodedig yn 2017-18. Mae hyn yn cymharu â 59 yn 2016-17 ac 81 yn 2015-2016. Gall y cynnydd yn nifer yr hysbysiadau adlewyrchu diwedd y cyfnod pontio a roddir i fusnesau gydymffurfio â'r gofyniad i gynnwys datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd penodol yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Sgôr Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016[15]. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi cytuno ar y cyd i ddyfarnu hysbysiad ar gyfer pob trosedd lle mae busnes eisoes wedi cael rhybudd.

[15] Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016

# 9. Camau Gweithredu mewn Ymateb i Argymhellion

9.1. Ym mis Chwefror 2018, gwnaeth yr ASB nifer o argymhellion yn ei hadroddiad[16] sy'n ymwneud â'r adolygiad o weithrediad y system apelio. Mae'r adran hon yn ystyried sut yr aethpwyd i'r afael â'r argymhellion hyn.

**Argymhelliad –** Bod yr ASB yn gwerthuso effaith y diwygiad i'r Cynllun a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mewn perthynas â chadw arian Hysbysiadau Camau Unioni, ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn wedi i'r Hysbysiad ddod i law.

***Ymateb –*** *Mae'r ASB, ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi nodi'r data sydd ei angen i werthuso effaith awdurdodau lleol yn cadw arian yr Hysbysiadau Camau Unioni a datblygu proses ar gyfer casglu'r data. Cytunwyd nad oedd cael data'r gorffennol o systemau awdurdodau lleol yn ymarferol nac yn ffordd dda o ddefnyddio adnoddau. Dechreuwyd casglu data ym mis Tachwedd 2018 er mwyn gallu creu adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.*

**Argymhelliad –** Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i lwyddo a datblygu.

***Ymateb –*** *Mae'r ASB wedi hwyluso a rhoi cyllid i gyfarfodydd y grŵp, a gyfarfu bedair gwaith rhwng y cyfnod 28 Tachwedd 2017 - 27 Tachwedd 2018. Yn ystod y cyfnod hwn, adolygwyd a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y grŵp, gan gynnwys aelodaeth a chynrychiolaeth. Yn 2018, canolbwyntiodd y grŵp ar ddatblygu protocol i gyflwyno ymyriadau wedi'u targedu mewn sefydliadau â sgoriau hylendid bwyd o 0-2 a threialu rhaglen ymchwil i sefydlu lefelau cydymffurfio â gofynion yn ymwneud â deunyddiau cyhoeddusrwydd.*

**Argymhelliad** – Bod awdurdodau lleol yn sicrhau y caiff yr holl apeliadau eu pennu, a bod gweithredwr y busnes yn cael ei hysbysu am y canlyniad, o fewn 21 diwrnod wedi i'r apêl ddod i law. Lle bydd oedi yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiadau.

***Ymateb –*** *Dywedodd saith awdurdod lleol eu bod wedi penderfynu ar un apêl y tu allan i'r cyfnod gofynnol o 21 diwrnod. Cysylltodd yr ASB â phob awdurdod lleol i ganfod y rheswm dros yr oedi ac i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau o dan y Cynllun.*

[16] Adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

# 10. Casgliadau

10.1. Canfu'r adolygiad bod awdurdodau lleol yng Nghymru, yn gyffredinol, yn gweithredu'r Cynllun yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau statudol. Fodd bynnag, ni phenderfynwyd ar saith apêl ar draws saith awdurdod lleol o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod.

10.2. Bu newidiadau i rai sgoriau hylendid bwyd yn dilyn apeliadau (18%), sy'n rhoi sicrwydd bod yr awdurdodau lleol yn gweinyddu'r broses apelio'n deg.

10.3. Dengys y data bod y system apeliadau'n cael ei defnyddio fwyfwy gan fusnesau sy'n cael sgôr '3' (Boddhaol ar y Cyfan) a '4' (Da). Roedd y rhain yn cyfrif am 39% o'r holl apeliadau yn 2016-17 a 49% yn 2017-18. Mae hyn yn rhoi syniad bod busnesau bwyd yn gweld gwerth cyflawni sgôr uwch.

10.4. Mae canfyddiadau'r adolygiad ac adolygiadau blaenorol fel rhan o'r trefniadau statudol yng Nghymru yn darparu tystiolaeth feintiol i ddangos bod awdurdodau lleol yn cymhwyso'r mesurau diogelu yn deg ac yn effeithiol.

10.5. Mae tri argymhelliad yn deillio o'r adolygiad ynglŷn â gweithrediad parhaus y system apelio yng Nghymru.

# **11.** Argymhellion

11.1. Mae'r ASB yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhelliad 1

Bod yr ASB yn atgoffa awdurdodau lleol o'r angen i gael trefniadau cadarn ar waith i bennu apeliadau a rhoi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd o’r canlyniad o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod.

Argymhelliad 2

Bod yr ASB yn adolygu canlyniadau'r pedwerydd Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a gweithio gyda Grŵp Llywio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru i nodi'r angen am gymorth neu ganllawiau ychwanegol, yn ôl yr angen.

Argymhelliad 3

Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn at:

**Daniel Morelli**
**Pennaeth y Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol**
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11, Tŷ Southgate
Wood Street, Caerdydd
CF10 1EW
E-bost: daniel.morelli@food.gov.uk